COFNODION CYFARFOD AGORED Y BWRDD, 13 GORFFENNAF 2006, GWESTY'R MARRIOTT CAERDYDD

SESIWN AGORED 09:00– 12:35

Yn Bresennol
Y Fonesig Deirdre Hutton, Cadeirydd
Julia Unwin, Dirprwy Gadeirydd
Richard Ayre
Chrissie Dunn
Maureen Edmondson
Valerie Howarth
Graeme Millar
Christopher Pomfret
Bill Reilly
Ian Reynolds
Sandra Walbran
Nelisha Wickremasinghe

Swyddogion yn mynychu:
John Harwood, Prif Weithredwr
Clair Baynton, Pennaeth Adran Bwydydd Newydd, Ychwanegion ac Atchwanegiadau (eitem 3.1 yn unig)
Julie Monk, Pennaeth yr Adran Gorfodi (eitem 3.2 yn unig)
David Statham, Cyfarwyddwr Gorfodi (eitem 3.3 yn unig)
Chris Lawson, Prif Weithredwr Gwasanaeth Glanweithdra Cig (Eitem 3.4 yn unig)
Alison Gleadle, Pennaeth Adran YST[1] (eitemau 1.1 a 3.5 yn unig)
David Carruthers, Adran YST (eitem 3.5 yn unig)
Keith Gregory, Ysgrifenfa'r Bwrdd
Claire Voller, Ysgrifenfa'r Bwrdd

Rhagymadrodd y Cadeirydd

1. Croesawodd y Cadeirydd bob sylwelydd oedd yn mynychu cyfarfod agored y Bwrdd.

2. Gwahoddwyd y Dirprwy Gadeirydd gan y Cadeirydd i gyflwyno'r cyfarfod. Atgoffodd y Dirprwy Gadeirydd y mynychwyr a gwylwyr y gwe-lledlad bod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn trafod testunau polisi yn ei gyfarfodydd agored er mwyn cwrdd â'u hymrwymiad i dryloywder a hygyrchedd. Byddai cyfle am gwestiynau yn union ar ôl y sesiwn ffurfiol a byddai modd i wylwyr y gwe-lledlad anfon cwestiynau i'r Bwrdd hefyd.

3. Nododd y Cadeirydd y cafwyd ymddiheuriadau gan aelod newydd y Bwrdd, Michael Parker.

[1]Ymenyddglwyfau Sbongiffurf Trosglwyddadwy Transmissible Spongiform Encephalopathies

4. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Cadeirydd bod Alan Gardner wedi cymryd y penderfyniad i ymddiswyddo o'r Bwrdd gan fod ei wrthdrawiadau buddion fel cynhyrchydd cynradd yn ei atal rhag cymryd rhan weithredol mewn nifer fawr o drafodaethau pwysig y Bwrdd. O'r herwydd, teimlai nad oedd yn bosibl iddo gyflwyno barn Cymru'n ddilys.

5. Atgoffwyd Aelodau'r Bwrdd gan y Cadeirydd o'r rheidrwydd arnynt i ddatgan buddiannau cyn trafod unrhyw eitemau perthnasol.

6. Codwyd un eitem am drafodaeth o dan Unrhyw Fater Arall:

- Papurau gwybodaeth (gan gynnwys ymrwymiad defnyddwyr) a phapurau rheolau sefydlog (Cadeirydd).

Eitem 1 - Cofnodion ac adroddiadau llafar

1.1 - Cofnodion Cyfarfod Agored ar 15 Mehefin 2006, Gwesty Jury, Bryste.
(ASB 06/07/01)

7. Cytunwyd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2006 yng Ngwesty Jury, Bryste gan y Bwrdd fel cofnod cywir yn amodol ar y sylwadau a cheisiadau am eglurhad canlynol:

Paragraff 38 – roedd yn bwysig sicrhau y dylai'r prif ffocws fod ar ddiogelu iechyd cyhoeddus y DU.

Paragraff 41 – Gofynnodd Graeme Millar am eglurhad ar arall-eirio cyngor cyfredol yr ASB ar fwyta cig defaid a geifr. Gwahoddodd y Cadeirydd Alison Gleadle (Pennaeth yr Adran YST) i'r llwyfan i ymateb. Cadarnhaodd Alison Gleadle nad oedd cyngor yr ASB wedi newid a nad oedd yr ASB yn cynghori rhag bwyta cig defaid. Roedd y papur ar glefyd y crafu an-nodweddiadol a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi cymryd i ystyriaeth barn grwpiau ffocws defnyddwyr a chyfranogwyr. Byddai Adran Cyfathrebiadau'r ASB yn datblygu'r cyngor yn bellach yn yr wythnosau i ddod, yn enwedig iaith a chyflwyniad y neges. Yna byddai'n cael ei glirio gydag Aelodau'r Bwrdd.

Gweithredu: Terrence Collis

Paragraff 70 - dylid eglurhau polisi cyfredol yr ASB ar raghysbysiadau'r Bwrdd ac enwau brandiau o fwydydd neu gwmnïau. Cytunwyd i ddarparu nodyn byr ar gyfer Aelodau'r Bwrdd rhwng y sesiynau gan osod allan y sefyllfa bresennol.

Gweithredu: Alan Harvey

1.2 - Gweithrediadau'n Codi
(ASB 06/07/02)

8. Nododd y Bwrdd y tabl o weithrediadau dilyn-i-fyny.

1.3 - Adroddiad y Cadeirydd

9. Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd bod manylion ei hymrwymiadau o 16 Mehefin i 12 Gorffennaf yn y papurau rheolau sefydlog (SO 06/07/04).

10. Llongyfarchodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd y Dirprwy Gadeirydd ar ei phenodiad i'r swydd glodfawr o Gyfarwyddwraig Sefydliad Joseph Rowntree, ac am gael CBE yn Anrhydeddau Pen-Blwydd y Frenhines. Byddai'r Dirprwy Gadeirydd yn gadael yr ASB ar ddiwedd y flwyddyn. Hefyd, llongyfarchodd y Cadeirydd Jon Bell, cyn Prif Weithredwr yr ASB, ar y dyfarniad iddo o'r CB.

Cyfarfod â LACORS/LGA

11. Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd ei bod wedi cael cyfarfod â CGRhALI[2]/CLIL[3] a chytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i ymgymryd â mwy o waith partneriaethol gyda'i gilydd, yn enwedig gan yr oedd yr awdurdodau lleol yn asiantwyr cyflwyno pwysig i'r ASB. Cafwyd trafodaeth ddefnyddiol ar a ddylid cael cyd-ddatganiad bwriad rhwng CGRhALI/CLIL a'r ASB. Byddai hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd am gytuno blaenoriaethau cyn unrhyw drefniadau tebyg a all darddu o brosesy Swyddfa Gwell Reolaeth Leol.

Labelu Arwyddbost

12. Hysbysodd Aelodau'r Bwrdd gan y Cadeirydd y cafwyd gweithgaredd parhaus ar labelu arwyddbost, a'i bod wedi cael cyfarfodydd niferus ag aelodau uwch y diwydiant. Oherwydd hyn, cytunwyd ar bolisi i ganolbwyntio ar gychwyn ar brosiect ymchwil i ddarganfod yr agwedd gorau a'r ffordd mwyaf effeithiol o hysbysu defnyddwyr.

Eitem 2 - Adroddiadau gan y Weithredfa

2.1 - Adroddiad y Prif Weithredwr

Digwyddiad bwyd Cadbury's - *Salmonella Montevideo*

13. Diweddarwyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau ar ôl i farau siocled o saith llinell cynhyrchu gael eu tynnu'n ôl oherwydd

[2] Cyd-Lynwyr Gwasanaethau Rheolaethol yr Awdurdodau Lleol/ Local Authorities Co-ordinators of Regulatory Services
[3] Cymdeithas Llywodraeth Leol /Local Government Association

achosion anarferol o uchel o salwch *Salmonella Montevideo* ym Mhrydain. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr bod hyn yn archwiliad cymhleth a helaeth yn cynnwys Cadbury a thri awdurdod lleol (Birmingham, Swydd Henffordd a Chaerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf). Roedd y prif bwylais bellach ar sut i atal digwyddiadau bwyd tebyg yn y dyfodol.

14. Roedd Cadburys wedi cytuno i raglen o weithredu lliniarol i fynd i'r afael â phroblemau a adnabuwyd yn eu ffatri ym Marlbrook gyda'r ASB a'r awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys glanhau cynhwysfawr, sefydlu system o ryddhau positif (gyda chynhyrchion ond yn cael eu rhyddhau am ddosbarthiad a defnydd pellach ar ôl prawf salmonella negyddol), a chodi samplo a phrofion i lefelau a fyddai'n rhoi lefel uwch o esmwythder meddwl.

15. Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod archwiliadau'n parhau, a bod dim penderfyniad wedi ei wneud parthed erlyniadau o dan gyfraith fwyd. Sicrhaodd y Bwrdd byddai unrhyw benderfyniadau i erlyn yn cael eu gwneud yn unol â chanllawiau GEG/ CPS[4].

16. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr bod yr ASB yn ystyried y gwersi sydd i'w dysgu o'r digwyddiad hwn, a byddai'n trefnu cyfres o seminarau gyda'r diwydiant a'r awdurdodau lleol i ystyried cyfundrefnau profion er diogelwch microbiolegol.

17. Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yn amlwg bod anghydbwysedd yn y ffordd y gweithredir y gyfraith ar gyfer labordai sydd yn trin samplau gan drydyddion, yn benodol lle mae labordai yn gwarchod cyfrinachedd eu cwsmeriaid trwy beidio â rhoi gwybodaeth yn berthnasol i archwiliadau diogwyddiadau bwyd ymlaen i awdurdodau rheoleithol lle y gofynnir am hynny. Ond roedd yn ofynnol o dan y gyfraith ar labordai mewnol cwmnïau bwyd i hysbysu'r ASB heb raid iddi ofyn am hynny pe digwydd i samplau ddangos canlyniadau positif am afiechydon a gludir gan fwyd.

- Roedd yn bwysig i gael y neges drosodd i bob labordy sydd yn cynnal profion ar ran cwsmeriaid y disgwylir iddynt weithredu er budd y cyhoedd a dylent fod yn ymwybodol o ganlyniadau peidio â rhyddhau gwybodaeth o'r math.

- Roedd yn galonogol y byddai'r ASB yn symud ymlaen yn adeiladol gyda chyfranogwyr y gwersi a ddysgwyd. Dylai tîm Cyfathrebu'r ASB sicrhau bod y neges yn cael ei rhoi ymlaen mor eang â phosibl i bod corff yn y fasnach.

[4] Gwasanaeth Erlyn y Goron/Crown Prosecution Service

- Gofynnwyd am eglurhad ar a oedd yr ASB yn hyderus bod dim effeithiau ar gynhyrchion Cadbury eraill oedd yn cael eu bwyta.

18. Ymatebodd y Prif Weithredwr i'r pwynt diwethaf hwn trwy esbonio bod archwiliadau yn dal i fynd yn eu blaen gyda chydweithrediad llawn Cadbury, ac, yn amodol ar y canlyniad, byddent yn penderfynu a fyddai rhaid galw unrhyw gynhyrchion eraill yn ôl. Pwysig oedd aros am ganlyniadau'r archwiliadau hyn cyn gweithredu'n bellach.

Ffliw Adarol

19. Diweddarwyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr ar achosion o'r ffliw adarol ymhlith adar. Ni fu unrhyw ddatblygiadau newydd yn y DU oddi ar gyfarfod diwethaf y Bwrdd. Cadarhaodd Sbaen ei hachos gyntaf o H5N1 mewn aderyn gwyllt ar 7 Gorffennaf, yn Ewsgadi/Gwlad y Basgiaid. Sefydlwyd cylch diogelwch o 3km a chylch arsylwi o 10km o gwmpas y safle lle y darganfuwyd yr aderyn. Nid oedd unrhyw ffermydd dofednod masnachol o fewn y cylch arsylwi, a ni chafwyd unrhyw adroddiadau o achosion eraill.

20. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr bod CIB/WHO[5] wedi cadarnhau 229 o achosion o ffliw adarol ymhlith dynol ryw gyda 131 o farwolaethau

Heintiad *E.coli* O157 yn Llwydis/Leeds

21. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr am haentiad o *E.coli* O157yn Llwydis. Nodwyd 22 o achosion hyd yn hyn yn effeithio ar bobl rhwng 5 ac 82 oed. Hysbyswyd yr achos gyntaf ar 23 Mehefin, a'r achos diweddaraf ar 11 Gorffennaf. Roedd archwiliadau wedi olrhain ffynhonnell yr heintiad i siop gigydd yn Llwydis. Roedd y rhan fwyaf o'r achosion wedi eu derbyn i ysbyty, a ni chafwyd unrhyw adroddiadau o farwolaethau.

22. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y digwyddiad yn cael ei drin gan dîm heintiad lleol yn hytrach nag ar lefel genedlaethol.

Adroddiad Eves

23. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr bod David Eves, cyn Dirprwy Gyfarwyddwr y CID/ HSE[6], wedi cwblhau arolwg o Dirwedd Cyflwyno Iechyd a Lles Anifeiliaid DEFRA[7]. Roedd yr arolwg wedi ystyried gorchwylion, cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Glanweithdra

[5] Corff Iechyd y Byd / World Health Organization

[6] Cyfarwyddfa Iechyd a Diogelwch/Health and Safety Executive

[7] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig/Department for Environment, Food and Rural Affairs

Cig, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a'u cysylltiad â gweithgareddau rheoleithol a gorfodol ar les ac iechyd anifeiliaid yn Lloegr.

24. O'r arolwg, daeth David Eves i'r casgliad bod y dirwedd cyflwyno'n rhy gymhleth a chandryll; roedd pob un o'r cyrff o dan bwysau sylweddol ac yn wynebu lefel uchel o newid; ac, er bod rhywfaint o dystiolaeth o gyd-weithio da, roedd hynny'n eithriad. Dyma'r prif argymhellion:

- Mae angen mwy o dryloywder ac atebolrwydd gyda mwy o reolaeth perfformiad i roi mwy o sicrwydd ar ganlyniadau; ac

- Y dylid ffurfio arolygiaeth genedlaethol Lles ac Iechyd Anifeiliaid gyda'r Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol yn galon iddi, h.y. rheoleithydd themataidd fel ag a ragwelwyd gan Hampton.

25. Cynghorodd y Prif Weithredwr nad oedd yr argymhelliad olaf hwnnw'n benodol ei gwmpas, ac os caiff ei dderbyn - ac yn dibynnol ar gwmpas y corff - roedd yn amlwg y byddai goblygiadau i'r Gwasanaeth Glanweithdra Cig. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n cwrdd â Debby Reynolds (Prif Swyddog Milfeddygol DEFRA) yn y dyfodol agos i drafod hyn.

26. Cytunodd y Prif Weithredwr i gylchynnu copïau o Adroddiad Eves i Aelodau'r Bwrdd.

Gweithredu: Ysgrifenfa'r Bwrdd

2.2 - Adroddiad gan Gyfarwyddwraig ASB Cymru

27. Croesawyd y Cadeirydd Gyfarwyddwraig ASB Cymru i'r llwyfan gan ei gwahodd i gyflwyno ei hadroddiad i'r Bwrdd.

28. Rhoddodd Cyfarwyddwraig ASB Cymru gyflwyniad i Aelodau'r Bwrdd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- Mae gan Gymru boblogaeth o 2.9 miliwn, gyda chyfran uwch o bobl hŷn na'r DU.

- Roedd incwm wythnosol cyfartaleddol cartrefi yn is na'r DU (£460 mewn cymhariaeth â £554) a lefelau afiechyd cyfyngol hir-gyfnod yn sylweddol o uwch.

- O gyfrifiad 2001, roedd 21% o bobl yn gallu siarad Cymraeg, gyda chyfran sylweddol â'r Gymraeg yn iaith gyntaf.

- Roedd canran y bobl o leiafrifoedd du ac ethnig yn is yng Nghymru mewn cymhariaeth â Lloegr, gyda chrynhoad ohonynt yng Nghaerdydd a'r

dinasoedd mwyaf.

- Roedd gan 41% yn unig o gartrefi Cymru fynediad i'r rhyngrwyd. Dangosodd arolwg diweddar bod mynediad i'r rhyngrwyd wedi cyrraedd gwastadedd neu hyd yn oed wedi lleihau mewn rhai ardaloedd a grwpiau o'r boblogaeth.

- Ar hyn o bryd roedd 34,000 o fusnesau bwyd wedi eu cofrestru yng Nghymru, gyda nifer fawr ohonynt yn dymhorol ac yn fach iawn (llawer yn cyflogi un neu ddau yn unig) yn enwedig gan fod twristiaeth yn ffynhonnell bwysig o arian a gwaith.

- Roedd cynhyrchu cynradd yn bwysig. Roedd 20,000 o ffermydd ag anifeiliaid a thua 10 miliwn o ddefaid yng Nghymru. Roedd anifeiliaid gan 97% o ffermydd sydd yn cynhyrchu bwyd yng Nghymru mewn cymhariaeth â 65% yn Lloegr.

- Dangosodd arolwg o agweddau defnyddwyr yng Nghymru bod cynnydd blynyddol sylweddol yn y nifer oedd yn derbyn neges bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r dydd, cynnydd mewn hunan-ddisgrifiadau o fwyta'n iach, cynnydd bach mewn ystyriaethau diogelwch bwyd yn 2005 (efallai'n rhannol oherwydd cyd-ddigwyddiad bras yr heintiad *E.coli* â'r arolwg), ac ymwybyddiaeth uchel o'r ASB, gyda 53% yn hyderus o orchwyl yr Asiantaeth wrth ddiogelu iechyd.

- Yn nhermau'r cyd-destun gwleidyddol, roedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am ddeddfu yng Nghymru. Byddai'r etholiadau nesaf i'r Cynulliad yn digwydd ym mis Mai 2007, a gallent newid y dirwedd wleidyddol yn arwyddocaol.

- Bydd Deddf Llywodraethu Cymru yn golygu gwahaniad cyfreithiol o'r Adran Weithredol a'r Ddeddfwrfa, pwerau deddfu newydd a newidiadau etholiadol. Nod y ddeddf oedd rhoi mwy o atebolrwydd ac eglurdeb a fyddai'n arwain at gynnydd mewn archwiliad polisi. Byddai pwerau newydd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud cais am bwerau i ddeddfu sylfaenol mewn meysydd penodol a all gynnwys bwyd, er mewn gwirionedd roedd hynny'n cael ei reoli yn bennaf gan ddeddfwriaeth fwyd yr UE.

- Yng nghyd-destun polisi, cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr agwedd mwyaf cyfyngol tuag at fasnachu a thyfu cnydau GM yng Nghymru o fewn deddfwriaeth gyfredol y DU a'r UE. Serch hynny, derbyniwyd na fyddai'n bosibl i Gymru gael ei ddatgan yn wlad ddi-GM yn gyfreithiol. Er yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o blaid sicrhau bwyd anifeiliaid di-GM, roedd cyfran uchel o fwydydd cyfansawdd yn cynnwys GM.

- Roedd pwyslais ar gynhyrchion lleol, Cymreig, organig ac o ansawdd, ac roedd y Cynulliad yn benodol yn ystyried cais am statws Enwebiad Tarddiad Gwarchodedig (PDO[8]) ar gyfer cig oen.

- Roedd cynaliadwyedd lladd-dai bach lleol hefyd yn destun o amlygedd uchel yng Nghymru. Roedd dwy ffatri gig wedi cau yn ddiweddar am resymau masnachol. Yn ddiweddar, roedd Gweinidog Amaethyddiaeth Cymru wedi galw am archwiliad iechyd ar yr holol ladd-dai oedd ar ôl yng Nghymru. Yn unol â strategaeth cymeradwyo'r ASB, bu'r ASB yng Nghymru'n gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Glanweithdra Cig er mwyn sicrhau bod cynlluniau gweithredu gorfodol a lliniarol priodol ar gael, ac roedd yn ddiolchgar am y gefnogaeth hon gan gyd-weithwyr yn y Gwasanaeth Glanweithdra Cig.

- Gweithiodd ASB Cymru â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith maeth ac iechyd. Roedd polisi'r Cynulliad yn canolbwyntio ar bobl ifanc ac ymarfer, felly roedd yn bwysig i sicrhau nad oedd dyblygiad gwaith rhwng yr ASB a'r Cynulliad.

- Yn nhermau dosraniad staff ASB Cymru yn ôl amcanion, diogelwch bwyd (Amcan 1) oedd y flaenoriaeth (yn unol â chynllun strategol yr ASB) a gafodd 62% o ddosraniad staff, gyda 15% am Fwyta er Iechyd (Amcan 2) a 23% am Ddewis (Amcan 3). Roedd adnoddau cyfyngedig wedi arwain at flaenoriaethu ei gweithgareddau yng Nghymru gan yr ASB. Pe byddai adnoddau ychwanegol ar gael, byddai'r ASB am gyflawni polisi a mentrau wedi eu teilwra'n fwy penodol i anghenion ac amgylchiadau Cymru. Roedd y gwaith dilyn-i-fyny yn gysylltiedig â'r heintiad *E.coli*, yr ymchwiliad a'r Archwiliad Cyhoeddus hefyd yn her i adnoddau. Ar hyn o bryd, roedd Cyfarwyddwraig ASB Cymru yn trafod yr heriau hyn â chyd-weithwyr o'r Cynulliad, gan ddisgwyl cael ymateb positif.

29. Cododd Aelodau'r Bwrdd y sylwadau canlynol mewn trafod:

- Roedd y ffaith bod mynediad i'r rhyngrwyd yn isel yng Nghymru yn destun pryder; sut oedd yr ASB yng Nghymru yn mynd i'r afael â hyn, gan ystyried bod yr ASB yn dibynnu'n drwm ar y rhyngrwyd am roi ei negesau drosodd?

[8] Mae'r Undeb Ewropeaidd yn cydnabod dau fath o enwau ansawdd bwyd (o dan Rheol Cyngor 2081/92) yn seiliedig ar eu tarddiad daearyddol: PGI sef enwebiad daearyddol gwarchodedig, a PDO sef Enwebiad Tarddiad Gwarchodedig. Mae'r olaf yn golygu enw rhanbarth, lle penodol neu, o dan achosion eithriadol, gwlad a ddefnyddir i ddisgrifio cynnyrch amaethyddol neu fwyd:
- sydd yn tarddu o'r lle penodol hwnnw neu'r rhanbarth neu wlad honno, ac
- sydd ag ansawdd neu nodweddion sydd yn hanfodol neu yn unigryw oherwydd amgylchedd daearyddol penodol gyda'i ffactorau naturiol a dynol cynhenid, ag a gynhyrchir, prosesir a pharatoir yn y ardal ddaearyddol diffiniedig;

- Roedd gwaith partneriaethol yn ffordd ddefnyddiol o estyn cyllideb yn bellach, yn enwedig pan oedd adnoddau i ASB Cymru'n gyfyngedig. Byddai'n ddiddorol i glywed y gwersi a ddysgwyd yn y maes hwn.

30. Mewn ymateb i destun mynediad isel i'r rhyngrwyd, dywedodd Cyfarwyddwraig yr ASB i Gymru eu bod wedi defnyddio ffurfiau amgen o gyfathrebu'n llwyddiannus er mwyn targedu ardaloedd difreintiedig e.e. menter "*Healthy Nosh For Less Dosh*" a roddodd gyngor ar sut i fwyta'n iach ar gyllideb isel. Hefyd, roedd ASB Cymru wedi ariannu dietegwyr i hyfforddi pobl leol i weithio'n uniongyrchol mewn cymunedau i ddarparu cyngor i'w cyd-oedolion. Ond roedd gwaith pellach i'w wneud o hyd.

31. Ar waith partneriaethol, rhoddodd Cyfarwyddwraig Cymru'r ASB enghreifftiau megis prosiect Get Cooking, cyd-fenter gan yr ASB a Sefydliad y Merched a dargedodd mamau ifanc sengl. Roedd hyn bellach wedi denu diddordeb ac arian sylweddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd ASB Cymru'n bwriadu siarad â thimau rhanbarthol newydd yr ASB i rannu profiad a gwersi a ddysgwyd ynglŷn â gwaith partneriaethol.

32. Diolchodd y Cadeirydd Gyfarwyddwraig ASB Cymru am ei chyflwyniad defnyddiol ac addysgiadol. Roedd yn galonogol i glywed bod canlyniad positif i'w disgwyl gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar destun cyllid. Parthed gwaith partneriaethol, roedd yn bwysig i sicrhau bod hyn yn gweithio gyda'r trefniadau cyfansoddiadol o fewn y gwledydd datganoledig.

33. Ychwanegodd y Cadeirydd bod y Bwrdd wrth ei fodd gyda phresenoldeb Jane Davidson, Gweinidog Addysg Cymru, yn y cinio ar y noson flaenorol, gan ddangos ei hymrwymiad i wella maeth yn yr ysgolion.

Eitem 3 - Eitemau Trafodaeth

3.1 - Fitaminau a Mwnau mewn Atchwanegiadau Bwyd a Bwydydd Atgyfnerthiedig – diweddariad ar ymrwymiad cyfranogwyr ar ddogfen drafod y Comisiwn Ewropeaidd *(Papur ASB 06/07/07)*

34. Croesawodd y Cadeirydd Clair Baynton (Pennaeth Adran Bwydydd Newydd, Ychwanegion ac Atchwanegiadau) i'r llwyfan i gyflwyno'r papur hwn ac i ateb cwestiynau.

35. Atgoffodd Clair Baynton Aelodau'r Bwrdd y trafodwyd gosod lefelau uchaf fitaminau a mwnau mewn Atchwanegiadau bwyd yng nghyfarfod Mis Medi 2005. Roedd y drafodaeth hon wedi digwydd yn niffyg unrhyw argymhellion gan y Comisiwn, ond roddodd gyfle i'r Bwrdd ystyried sut y gellid gosod y lefelau hyn yn y dyfodol. Roedd y Bwrdd wedi gofyn am fwy o wybodaeth ar i ba raddau yr oedd y diwydiant yn defnyddio datganiadau

cynghorol a marchnad y DU am Atchwanegiadau dogn uwch, yn enwedig parthed plant.

36. Adeg y drafodaeth, cydnabuwyd y bydd o bosibl yn angenrheidiol i'r Bwrdd ail-ystyried y testun hwn pan ddaw argymhellion o'r Comisiwn. Cyn cyhoeddi argymhellion ffurfiol, roedd y Comisiwn wedi cyhoeddi dogfen drafod ar 6 Mehefin gan geisio sylwadau gan gyfranogwyr ac aelod-wladwriaethau erbyn 30 Medi. Yna, bwriad y Comisiwn oedd cyhoeddi argymhellion o fewn 2 flynedd o'r dyddiad hwnnw a fyddai'n sail i drafodaethau gyda'r aelod-wladwriaethau. Roedd y cwestiynau a godwyd gan y Comisiwn yn gyson â'r rhai a godwyd gan y Bwrdd ym Mis Medi 2005 wrth gytuno ar ei argymhelliad o'i agweddau a'i egwyddorion. Er enghraifft, roedd y Comisiwn am wybod pa wybodaeth oedd ar gael ar lefelau defnydd fitaminau a mwnau mewn aelod-wladwriaethau ac a oedd y defnydd yn amrywio.

37. Roedd yr ASB yn awyddus i glywed barn cyfranogwyr, ac argymhellodd y swyddogion ymgynghori â nhw mewn dau gyfarfod a gynlluniwyd ar gyfer Gorffennaf a Medi. Yna cynigiwyd y byddai safiad yr ASB, a oedd i'w cytuno gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym Mis Medi, yn sail wybodaeth ar gyfer ymateb Llywodraeth y DU i'r Comisiwn.

38. Roedd y Bwrdd wedi cytuno ym mis Mehefin y dylai'r ASB fynegi ei egwyddorion blaenaf cyn unrhyw drafodaethau â chyfranogwyr. Dyma'r pedair egwyddor (Paragraff 6 o'r papur) a gynigiwyd gan y swyddogion:

- Dylai defnyddwyr fod â'r hawl i wneud dewis ar sail wybodaeth oni fygythir eu diogelwch;

- Mae angen sail wybodaeth er mwyn sicrhau y gwarchodir diogelwch defnyddwyr;

- Rhaid i'r sail wybodaeth gymryd i ystyriaeth yr asesiad peryglon gan arbenigwyr gwyddonol;

- Mae angen monitro parhaus yn y farchnad er mwyn parhau i gynnal y sail wybodaeth.

39. Felly parhaodd ffocws polisi'r ASB parthed atchwanegiadau bwyd i fod ar ddiogelwch a dewis defnyddwyr, tra'n ceisio agwedd cymesur ar sail wybodaeth tuag at osod lefelau uchaf fitaminau a mwnau mewn atchwanegiadau bwyd.

40. Cododd Aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ar yr arolwg:

- Bu sail ledan i ganlyniadau'r arolwg a geir yn y papur rhyngsesiynol

(INT 06/07/03) ac nid oeddynt yn rhoi'r manylion y gofynnwyd amdanynt ar yr effaith ar blant. Cydnabuwyd ei fod yn anodd iawn gwybod sut i asesu'r effaith ar blant, ond eto i gyd, roedd gan yr ASB gyfrifoldeb i fynd i'r afael â hyn.

- Dylid ffactoru ymchwil a data cyfredol ar feddyginiaeth bediatrig (Cyfarwyddeb yr UE) i mewn i'r broses hon. Byddai Cyffurlyfr Cenedlaethol Prydain (fersiwn pediatrig) yn cynnig ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol ar ddognau uchaf ac isaf sylweddau ar gyfer grwpiau oedran penodol.

- Dylid ceisio gwybodaeth ar sut y bydd defnyddwyr yn gwneud dewisiadau ar sail wybodaeth, a'r hyn yr oedd yn ddefnyddiol iddynt. Dylai'r cysylltiadau a gynllunir â chyfranogwyr a defnyddwyr fod yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn.

- Dylid cyflwyno barn cyfranogwyr i'r Bwrdd eu hystyried ym Mis Medi.

- A ellir cymryd unrhyw gamau pellach yn nhermau'r strategaeth ymrwymo i ledu'r ystod o grwpiau diwydiannol sydd yn cymryd rhan?

- Roedd angen cyfundrefn i sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'r ymgynghoriad hwn.

- Roedd yn rhesymol i ddisgwyl i'r brif drafodaeth ar farn cyfranogwyr ddigwydd ym mis Medi.

41. Atebodd Clair Baynton bod canlyniadau'r arolwg ar blant a ddarparwyd gan yr Arolwg Cenedlaethol o Fwyd a Maeth yn cynnwys gwybodaeth ar ddefnydd plant o fitaminau a mwnau. Serch hynny, cafwyd anawsterau wrth gael gwybodaeth ar faeth plant. Eto i gyd, byddai'r ASB yn ystyried pa waith bellach y gellid ei wneud yn y maes hwn, gan gymryd i ystyriaeth y dulliau a ddefnyddir mewn meddygaeth bediatrig.

42. Cadarnhaodd Clair Baynton yr argymhellwyd mewnbwn trwy gyfrwng cyfarfodydd cyfranogwyr, yn hytrach na sylwadau ysgrifenedig, oherwydd amserlen dynn y Comisiwn. Ond os oedd Aelodau'r Bwrdd yn teimlo'n gryf y dylid cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig, byddai modd trefnu hynny. Ar ôl cyfarfodydd y cyfranogwyr, byddai'r ASB yn sicrhau bod pawb perthnasol yn cael copïau o hyn. Er y gwahoddwyd nifer fawr o gyfranogwyr i gyfarfod ym mis Gorffennaf, roedd y nifer a gytunodd i ddod yn is na'r gobaith. Disgwylir gwell ymateb ar gyfer cyfarfod i'w gynnal ym mis Medi, a fyddai'n rhoi cyfle arall am fewnbwn gan gyfranogwyr. Cytunodd Clair Baynton y dylai'r ASB gymryd sylwadau'r Bwrdd ymlaen gan sicrhau bod yr holl gyfranogwyr yn ymwybodol o'r strategaeth ymrwymol. Gan mai ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd oedd hwn, byddai cyfranogwyr ac aelod-wladwriaethau yn cael cyfle ychwanegol i ymateb yn uniongyrchol i'r Comisiwn os nad oeddynt mewn modd i gwrdd ag amserlenni'r ASB.

43. Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd y sylwadau canlynol ar y bedair egwyddor arfaethedig a fyddai'n sail i drafodaethau'r ASB gyda chyfranogwyr:

- Roedd angen sail dystiolaeth gref ar ddata gwenwyndra, y defnydd o gynhwysion bwyd a bwydydd, yn ogystal â dealltwriaeth o'r farchnad. Siomedig oedd y ffaith nad oedd y diwydiant wedi bod yn fwy cydweithredol wrth gymryd rhan yn yr arolwg, a dylid ymgymryd â gwaith pellach i annog y diwydiant i ddarparu'r wybodaeth hon.

- Roedd angen pwyslais penodol ar ddiogelu defnyddwyr rhag twyll.

- Ynglŷn â'r sail wybodaeth, roedd yn bwysig i gynnwys dull ffordd gyflym am ail-asesu cynhyrchion pan ddaw gwybodaeth newydd i'r amlwg - roedd y dulliau am wirio deddfwriaeth yr UE yn gymhleth ac yn anymarferol ar hyn o bryd am fynd i'r afael â hyn.
- Yn fwy cyffredinol, credai rhai o Aelodau'r Bwrdd bod angen mwy o gysondeb yn y ffordd y byddai'r ASB yn trin polisi yn ei grynswth ac yn ei gymhwyso. Ond teimlai Aelodau eraill o'r Bwrdd y dylai hyn fod yn amcan yn hytrach nag egwyddor.

44. I grynhoi, nododd y Cadeirydd bod y Bwrdd:

- wedi cytuno'r strategaeth ymrwymol â chyfranogwyr, ar yr amod y byddai'n gofyn am fewnbwn ysgrifenedig ac yn croesawu hynny, ac y dylai safiad yr ASB a roddwyd gerbron y Bwrdd ym Mis Medi gyflwyno'r dystiolaeth a geir gan gyfranogwyr yn glir. Cytunwyd y dylid rhoi i'r Bwrdd mwy o wybodaeth ar strategaeth yr ASB am hysbysu cyfranogwyr.

Gweithredu: Clair Baynton

- wedi cytuno'r egwyddorion a fyddai'n sail i drafodaethau gyda'r cyfranogwyr (Paragraff 6 o'r papur) yn amodol ar dynnu allan y geiriau "oni fygythir eu diogelwch" o'r pwynt bwled cyntaf er mwyn ei ehangu i gwmpasu diogelu defnyddwyr rhag twyll.

- wedi cytuno y dylai'r angen am gysondeb fod yn amcan yn hytrach nag egwyddor, ac y dylai'r Weithredfa gymryd hyn i ystyriaeth yn ystod y broses o ymgysylltu â chyfranogwyr a llunio ymateb drafft yr ASB. Hefyd dylid ystyried cwmpasu safonau lleiaf a dull ffordd gyflym o wneud newidiadau ar y lefelau yn ystod y broses.

- wedi cytuno bod angen mwy o wybodaeth ar ddefnydd plant o fitaminau a mwnau, a chynnwys data o astudiaethau ar feddyginiaeth bediatrig.

Gweithredu: Clair Baynton

45. Ychwanegodd y Cadeirydd iddi gael rhywfaint o drafodaeth gyda Gweinidogion, a'u bod yn ymwybodol o'r agwedd dwy haenen yr oedd Bwrdd yr ASB wedi ei gytuno ym Mis Medi 2005, ac a fabwysiadwyd fel llinell y Llywodraeth. Byddai gosod lefelau'n gyfrifoldeb yr ASB.

3.2 - Arolwg y DU o Safonau Glanweithdra mewn Anheddau Bwyd 2005
(Papur ASB 06/07/03)

46. Croesawodd y Cadeirydd Julie Monk (Pennaeth yr Adran Gorfodi) i'r llwyfan i gyflwyno'r papur ac ateb cwestiynau.

47. Hysbysodd Julie Monk Aelodau'r Bwrdd bod y papur hwn yn adroddiad o ganlyniadau Arolwg Anheddau Bwyd 2005 y DU, a sut yr oedd yr ASB yn bwriadu defnyddio'r wybodaeth. Cynhaliwyd a chyhoeddwyd yr arolwg blaenorol o'r math gan y Comisiwn Archwilio ym 1990.

48. Cynhwyswyd Adroddiad llawn Arolwg Anheddau Bwyd yr ASB yn Atodiad A i'r papur. Nododd Julie Monk ddiolch yr ASB i'r awdurdodau lleol oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg gwirfoddol hwn.

49. Roedd yr arolwg wedi gofyn am wybodaeth o archwiliadau ar reoli a gweithredu glanweithdra mewn sampl gynrychiadol o bob math o anheddau bwyd. Cafwyd ymateb gan 316 o awdurdodau lleol sef 67% o gyfanswm yr awdurdodau lleol yn y DU. Dangosodd 13% o'r anheddau a arolygwyd anuffudd-dod sylweddol ag ymrwymiadau glanweithdra stadudol. Ond mae gan Awdurdodau Lleol hierarchaeth o bwerau y gallant eu defnyddio i weithredu sydd yn amrywio o gau neu erlyn busnes lle mae perygl uniongyrchol i iechyd, i roi rhybuddion gwella neu gyngor lle yr ystyrir bod y camwedd yn llai difrifol. Roedd yr ASB yn gyrru ystod eang o fentrau i leihau lefel anufudd-dod e.e. Safer Food Better Business (SFBB)[9] a chynlluniau arbrofol Sgôr ar y Ddôr sydd yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr ar sut y perfformiodd busnes bwyd yn ei harchwiliad glanweithdra diwethaf, sydd yn ei dro yn rhoi ysgogiad i fusnesau gydymffurfio'n bositif.

50. Prif ddefnydd y data fyddai llunio a gosod targedau ar gyfer y strategaeth gorfodi newydd i wella cydymffurfiad, ac i weithredu fel gwaelodlin am fesur effeithiau pob menter i wella cydymffurfiad. Byddai hefyd yn sail wybodaeth ar gyfer arolygon yn y dyfodol i fesur effeithiolrwydd a pherfformiad yr ASB ac ymyrraeth gan Awdurdodau Lleol, a lefel cydymffurfiad â deddfwriaeth glanweithdra.

51. Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol mewn trafodaeth:

[9] Mae SFBB yn rhoi adnoddau i Awdurdodau Lleol i roi cyngor targedol i arlwy-wyr a mân-werthwyr annibynnol.

- Er yr oedd ymateb o 67% yn dda, nid oedd y rhesymeg am wneud hyn yn arolwg gwirfoddol yn glir;

- Dyma astudiaeth werthfawr a oedd wedi rhoi data defnyddiol a dylid ei ail-gynnal yn rheolaidd. Ond pa mor hyderus oedd yr ASB bod y canlyniadau hyn yn gynrychiadol, gwrthrychol ac ystadegol ddilys? A ddylid cyfeirio'r arolwg i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil?

- Byddai cael gwybodaeth bellach ar y fethodoleg a'r ymchwil a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn ddefnyddiol.

- Croesawyd menter Sgôr ar y Ddôr a fyddai'n caniatáu i ddefnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a gafwyd o ganlyniadau archwiliadau glanweithdra.
- Roedd yn anghyson i beidio â bod mewn modd i gyhoeddi gwybodaeth ar fusnesau nad oedd yn cydymffurfio, gan fod hynny'n digwydd mewn arolygon eraill yr ASB lle yr enwir brandiau a chwmnïau. Dylid fynd i'r afael â hyn pan fydd y Bwrdd yn arolygu ei bolisi llawn ar agoredd.

- Byddai'n ddefnyddiol i gynnwys asesiad o'r effeithiau ar fusnesau'r lleiafrifoedd ethnig.

- Roedd yn destun pryder arbennig ei bod yn ymddangos bod un o bob 5 gwerthfan bwyd-i-fynd yn berygl unionsyth i iechyd.

- Cyfrannodd nifer sylweddol o uwch o Awdurdodau Lleol o'r gwledydd datganoledig i'r arolwg mewn cymhariaeth ag Awdurdodau Lleol yn Lloegr. A ddylid wneud unrhyw gasgliadau ar yr Awdurdodau Lleol na chymerodd ran yn yr arolwg?

- A wnaed unrhyw ddadansoddiad penodol o'r canlyniadau o anheddau anghydymffurfiol i weld a oedd unrhyw negesau i'w dysgu e.e. bod adnoddau golchi dwylo da yn arwain at well gydymffurfiad cyfannol? Gallai hyn roi gwybodaeth ddefnyddiol ar le i dargedu a chanolbwyntio adnoddau.

- Roedd angen mwy o wybodaeth yn y prif bapur ar y goblygiadau i'r gwledydd datganoliedig.

- Byddai'n ddefnyddiol i gael mwy o wybodaeth ar y cynllun gweithredu a argymhellwyd, yn benodol adnoddau, blaenoriaethau a gweithredoedd targedol. Dylid hyn gymwpasu'r negesau y gellid eu danfon i ddefnyddwyr yn ogystal â gweithrediadau ar gyfer Awdurdodau Lleol.

- Gofynnwyd am eglurdeb ar sut y byddai menter SFBB yn cael ei ddefnyddio yn y gwledydd datganoledig.

- Sut y byddai'r 7% o anheddau a gafwyd yn berygl unionsyth i iechyd yn cael eu trin?

52. Mewn ymateb i'r pwyntiau a chwestiynau hyn, pwysleisiodd Julie Monk mai amcan yr arolwg oedd cael gwaelodlin, ac nid i adnabod perfformiad yr Awdurdodau Lleol, gan yr oedd cyfundrefnau eraill yn bodoli i wneud hynny. Gwnaed yr arolwg ar sail wirfoddol i annog llifiant hawdd o wybodaeth gan Awdurdodau Lleol; roedd ystadegwyr wedi cadarnhau bod y gyfradd ymateb a maint y sampl o'r DU i gyd yn ddilys. Y bwriad oedd cynnal yr arolwg bob dwy flynedd. Byddai'r arolwg hwn yn ychwanegol i ganlyniadau'r monitro blynyddol presennol gan Awdurdodau Lleol ar weithgaredd gorfodi.

53. Parthed dadansoddi'r canlyniadau ar sut i sicrhau cydymffurfiad mwy effeithiol e.e. trwy dargedu gwelliannau mewn adnoddau golchi dwylo, datblygwyd strategaeth i sicrhau gwell ymchwil (gan Goleg y Brenin, Llundain) ar yr hyn sydd yn cynyddu cydymffurfiad. Parthed yr effeithiau ar leiafrifoedd ethnig, byddai modd cynnwys hyn mewn arolygon yn y dyfodol. Ond roedd menter SFBB wedi cymryd i ystyriaeth anghenion lleiafrifoedd ethnig.

54. Cadarnhaodd Julie Monk bod menter SFBB yn gynllun ledled y DU ac felly roedd y defnyddiau ar gael ar gyfer defnydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, er bod defnydd o'r grantiau sydd ar gael am unrhyw gynlluniau generig yn fater i'r gwledydd datganoledig.[10] Ynglŷn â gweithredu ar fater y 7% o anheddau a gafwyd yn beryglon uchel i iechyd y cyhoedd, roedd yr Awdurdodau Lleol eisoes wedi gweithredu o fewn y posibiliadau oedd ar gael iddynt (o ail-ymweld i sicrhau bod anghydymffurfiaethau wedi eu cywiro i gau i lawr ac erlyn).

55. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr ASB , tra'n cadw maint yr ymarfer o fewn terfynau rhesymol, wedi ceisio sicrhau bod y data o'r arolwg yn ystadegol ddilys. Gan gymryd bod hynny'n wir, roedd yn destun pryder yr ystyriwyd 7% o anheddau yn beryglon uchel. Felly roedd yr ASB wedi penderfynu neilltuo £1 miliwn ychwanegol fel grantiau i'r Awdurdodau Lleol ar gyfer y rhaglen SFBB i helpu busnesau bwyd gydymffurfio â'r gyfraith a gwella safonau glanweithdra bwyd yn bellach. Nododd y Prif Weithredwr hefyd bod angen i'r ASB weithio gyda'r Awdurdodau Lleol i wella safonau, ac felly roedd arolwg gwirfoddol yn fwy gweddus i'r agwedd partneriaethol hwn.

56. Cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu at Aelodau'r Bwrdd i roi gwybodaeth bellach ar ddilysrwydd ystadegol a methodoleg canlyniadau'r arolwg, a'r ffordd yr aseswyd ac adnabuwyd unigolion.

Gweithredu: John Harwood

57. I grynhoi, nododd y Cadeirydd bod y Bwrdd wedi:

[10] Y taclau eraill sydd ar gael i'r Asiantaeth yw Strategaeth Gweithredu HACCP yng Nghymru, "Cooksafe in Scotland" a "Safe Catering" yng Ngogledd Iwerddon.

- nodi canlyniadau'r arolwg ac, er y cafwyd rhwyfaint o amheuon am antur y dystiolaeth, yr oedd yn gefnogol i'r canlyniadau a'r sefyllfa hon fel man cychwyn da;

- mynegi pryder bod rhaid cael mwy o fanylder ar sut y gweithredir mewn canlyniad i ddarganfyddiadau'r arolwg hwn, yn enwedig eglurdeb ar sut y byddai hyn yn effeithio'r ffordd y bydd yr ASB yn gweithredu;
- cytuno bod angen rhoi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd er mwyn caniatáu iddynt wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth y gellid ei chysylltu â chynllun Sgôr ar y Ddôr;

Hefyd, nododd y Cadeirydd bod y Bwrdd wedi gwneud y pwyntiau ychwanegol dilynol:

- Cytuno bod y pwyslais ar anheddau arlwyo'n iawn, ond dylid cyfeirio canlyniadau'r arolwg i'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil er mwyn gwirio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a chadernid y data;

- Roedd yn bwysig sicrhau y cymerir testunau datganoledig i ystyriaeth yn ddilys ac yr ymgorfforir barn o'r gwledydd datganoledig yn y prif bapurau, gan gynnwys cyngor gan Bwyllgorau Ymgynghorol ar Fwyd. Roedd diogelwch bwyd yn destun i bob busnes yn y DU.

58. Cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu i Aelodau'r Bwrdd gyda gwybodaeth bellach am yr Awdurdodau Lleol oedd wedi, neu heb, ymateb, ynghyd â manylion o asesiadau unigol er mwyn sicrhau bod ystadegau gan y rhai nad ymatebodd yn ddigonol gwahanol.

Gweithredu: John Harwood

3.3 - Ymateb yr ASB i Arolwg Macrory – Cyfianwder Rheolaethol: Cosbedigaeth mewn Byd wedi Hampton
(Papur yr ASB 06/07/04)

59. Croesawodd y Cadeirydd David Statham (Cyfarwyddwr Gorfodi) i'r llwyfan i gyflwyno'r papur ac i ateb cwestiynau.

60. Hysbysodd David Statham Aelodau'r Bwrdd bod John Hutton, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn ar y pryd, wedi gofyn i'r Athro Macrory ym Mis Medi 2005 i gynnal arolwg o'r gyfundrefn bresennol o gosbedigaethau rheoleithol, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ac yn briodol ar gyfer yr agwedd tuag at reolaeth a gorfodi ar sail peryglon a osodir yn Arolwg Hampton. Ddiwedd Mai 2006, cyhoeddodd yr Athro Macrory ddogfen ymgynghorol ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion cychwynnol am system fodern o gosbedigaethau rheoleithol. Y dyddiad cau am ymateb oedd 18 Awst.

61. Nododd y papur hwn argymhellion Macrory i'r Bwrdd, ynghyd ag asesiad cychwynnol y Weithredfa ohonynt. Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod heddiw, argymhellwyd paratoi ymateb llawn gan gymryd i ystyriaeth y testunau a godwyd gan y Bwrdd. Yna dosberthir hyn i bob Aelod o'r Bwrdd am sylwadau pellach a chymeradwyaeth cyn ei gyflwyno ymlaen i'r Athro Macrory mewn pryd iddo gwrdd â'i ddyddiad cau.

62. Nododd y Cadeirydd bod amserlen yr ymgynghoriad yn lletchwith, yn enwedig gyda dyddiad cau ym mis Awst. Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd yr Alban y bu'n ddymuniad y Pwyllgor i ystyried hyn, ond nid oedd hyn wedi bod yn bosibl oherwydd yr amserlen. Gofynnodd y Cadeirydd i David Statham ofyn am estyniad i'r dyddiad cau, fel y byddai modd i'r ASB a Phwyllgorau Ymgynghorol Bwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gael amser i ystyried hyn yn ddilys.

63. Rhoddodd David Statham arolwg cryno o'r argymhellion yn Adroddiad yr Athro Macrory oedd yn argymhell y dylai erlyniadau yn unig gael eu defnyddio am dramgwyddau difrifol, gyda mwy o ddibyniaeth ar gosbau gweinyddol a rhybuddion stadudol. Ond yr oedd sut i drin tramgwyddwyr cyson ac a ddylid eu herlyn, yn brif bryder. Rhoddodd yr atodiad i'r papur fanylion o'r elfennau arfaethedig i ddiwygio'r system o gosbedigaeth. Ond nododd David Statham bod gwrthdrawiadau rhwng argymhellion Macrory a Chôd Cydymffurfiad stadudol y Llywodraeth, yn benodol cymhwysiad yr egwyddorion cosbi arfaethedig ar lefel gorfodi (h.y. lefel yr unigolyn), er bod cymhwysiad y Côd Cydymffurfiad ar lefel polisi/rheoleithwyr. Nid oedd yn dderbyniol bod egwyddorion gwrthdrawiadol yn bodoli, a byddai hyn yn achos anawsterau i orfodwyr. Roedd y cosbau arfaethedig yn amrywiadwy ac nid oedd yn glir sut y byddent yn cael eu priodoli a phwy fyddai'n talu am y Tribiwnlysoedd Apêl Rheoleithol. Nid oedd diddordeb Macrory mewn defnyddio rhybuddion stadudol a rhybuddiadau ffurfiol yn gwrthdaro â llinell yr ASB; defnyddir y rhain yn helaeth eisoes. Yn nhermau argymhelliad Macrory am ddefnydd uwch o gyfiawnder adferol[11], roedd hyn yn anhebygol o fod yn berthnasol i faes bwyd. Er enghraifft, mewn achosion o wenwyno bwyd, roedd yn anodd i brofi'n ddi-amwys achos neu ffynhonnell ddicamsyniad y gwenwyno. Ond gallai gorfodi dramgwyddwr i lunio datganiadau ymddiheurol fod yn declyn defnyddiol. Byddai'r agweddau datganoli'n anodd eu cymryd i ystyriaeth, ond yr hyn oedd ei angen yma oedd cysondeb agwedd o fewn fframwaith hyblyg.

64. Gofynnodd Aelodau'r Bwrdd y cwestiynau canlynol mewn trafodaeth:

- Pa mor faichus fyddai'r system arfaethedig ar y llysoedd, yn enwedig y broses arfaethedig o Dribiwnlysoedd Apêl Rheoleithol?

- Beth oedd y gwahaniaeth rhwng rhybudd gorfodi ac ymrwmiad gorfodadwy?

[11] Proses lle y bydd y rhai yr effeithiwyd arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan gamwedd yn dod at ei gilydd i benderfynu'r hyn y mae rhaid ei wneud er mwyn unioni'r cam ac atal aildroseddu.

- A gynhwysir y Gwasanaeth Glanweithdra Cig ym mhroses ymgynghorol yr ASB?

65. Mewn ymateb, cadarnhaodd David Statham nad oedd modd asesu nifer yr apeliadau rhag cosbau gweinyddol. Ond pe byddai awdurdodau lleol yn cyhoeddi nifer sylweddol o rybuddion, gallai hyn esgor ar nifer sylweddol o apeliadau. Dyma'r rheswm am sefydluTribiwnlys Apêl Rheoleithol ar wahân; roedd y systemau apêl presennol yn rhoi pwysau sylweddol ar y Llysoedd. Parthed rhybuddion stadudol, cadarnhaodd David Statham bod rhybudd gorfodi yn disgrifio camau y mae angen i fusnes eu gweithredu, ac os na fyddai hynny'n ddigwydd, byddai cosbau'n cael eu cymhwyso. Roedd ymrwymiad gorfodadwy yn gytundeb rhwng busnes a gorfodwyr a gallai fod yn ehangach na'r hyn y gellid ei gynnwys mewn rhybudd. Cadarnhaodd David Statham y byddai'n ceisio sylwadau gan y Gwasanaeth Glanweithdra Cig er mwyn sicrhau y ceir barn helaeth ac y cymerir eu profiad a chyngor i ystyriaeth yn ymateb terfynol yr ASB.

66. Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd i ystyried y cwestiynau a nodir yn y papur. Cytunwyd y dylai ymatebion y Bwrdd i'r rhain fod fel a ganlyn:

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno â chasgliadau cyfannol yr Athro Macrory ar y system cosbi presennol, ac y dylid croesawu ei argymhelliad o becyn o daclau ehangach? (para 4)

Ymateb y Bwrdd: Ydyw. Gellid rhoi nifer o enghreifftiau o rwystredigaethau presennol yn ymateb yr ASB a sut y byddai'r system cosbi arfaethedig yn mynd i'r afael â'r rhain.

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno â sylwadau Marcrory ar erlyniadau? (para 6)

Ymateb y Bwrdd: Mae Macrory'n credu y dylid cyfyngu erlyniadau i'r camweddau mwyaf difrifol, yn enwedig lle y cafwyd tystiolaeth o ymddygiad di-hid neu fwriadol neu lle mae'r canlyniadau gwirioneddol neu botensial mor ddifrifol i beri i'r cyhoedd fynnu erlyniad. Cytunwyd y dylid cael diffiniad clir o'r hyn oedd yn gamwedd difrifol, ac i hyn roi mwy o hyblygrwydd i orfodwyr. Roedd yn arbennig o bwysig i gael y dewis o erlyn tramgwyddwyr parhaus.

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno ag asesiad y perygl yn ymwneud ag egwyddorion cosbau arfaethedig (para 8)

Ymateb y Bwrdd: roedd pryder sylfaenol bod egwyddorion cosbi arfaethedig Macrory (i'w cymhwyso ar y lefel gorfodi h.y. unigol) yn ddryslyd gan y byddent yn gwrthdaro â'r egwyddorion a nodir yng nghôd cydymffurfiad stadudol y Llywodraeth (i'w gymhwyso ar y lefel polisi/rheoleithol). Hefyd byddai dryswch pellach gan y byddent yn ychwanegu at set arall o egwyddorion a oedd eisoes yn bodoli ar gyfer rheoleithwyr (Egwyddorion Rheoleithu Da; Egwyddorion Hampton).

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno y dylid cynnwys cosbau gweinyddol sefydlog ac amrywiadwy yn y pecyn taclau am dramgwyddau i gyfraith fwyd? (para 9)

Ymateb y Bwrdd: ni ddylai seilio cosbau amrywiadol ar allu'r busnesau i dalu, gan y gallai busnesau weld hyn yn negyddol yn nhermau cyfiawnder mympwyol a chodi refeniw. Dylid gofyn am ragor o fanylion ar sut y byddai'r system cosbau amrywiadol yn gweithio.

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno y dylai ymrwymiadau gorfodadwy fod yn rhan o'r pecyn taclau cosbi? (para 10)

Ymateb y Bwrdd: Ydyw. Yr unig eithriad i hyn oedd y dylai'r gallu i ddewis y cosbau aros gyda'r rheoleithwyr.

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno bod lle i gyfiawnder adferol yn y pecyn taclau cosbi? (para 11)

Ymateb y Bwrdd: yn gyfannol, roedd ansicrwydd ynglŷn â'r defnydd o gyfiawnder adferol, ond byddai'n faes a fyddai'n haeddu archwiliad pellach. Gellid rhoi cymhwysiad mwy creadigol iddo trwy ei helaethu e.e. i gynnwys camau lle mae tramgwyddwyr (yn enwedig MBCau[12]) wedi ymddiheuro i'w cymunedau lleol.

A ydyw'r Bwrdd yn cytuno â'r asesiad hwn o argymhellion Macrory am dribiwnlysoedd? (para 12)

Ymateb y Bwrdd: Ydyw, ar yr amod bod y Tribiwnlysoedd yn cael yr adnoddau dilys i weithredu'n effeithlon.

A ydyw'r Bwrdd am godi unrhyw destunau datganoli gyda Macrory bellach? (para 13)

Ymateb y Bwrdd: Gofynnodd Cadeirydd yr SFAC[13] am amser i ymgynghori â swyddfa'r Procuradur Ffisgal, gan ystyried y system gyfraith wahanol yn yr Alban, a hefyd i fod mewn modd i ystyried hyn yng nghyfarfod nesaf yr SFAC. Nodwyd y byddai'r materion datganoli'n mynd yn bellach na gorchwyl yr ASB.

67. I grynhoi, nododd y Cadeirydd bod y Bwrdd:

- wedi cytuno y dylid gwneud cais ar unwaith am estyniad i'r dyddiad cau am ymateb i arolwg Macrory, gan ystyried yr angen am roi digon o amser i'r Pwyllgorau Ymgynghorol Bwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ystyried yr argymhellion a'r goblygiadau i'r gwledydd datganoledig.

[12] Mentrau Bach a Calonig

[13] Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd yr Alban/ Scottish Food Advisory Committee

Gweithredu: David Statham

- wedi cytuno y dylid clirio ymateb terfynnol yr ASB gydag Aelodau'r Bwrdd rhwng sesiynau.

Gweithredu: David Statham

3.4 - Adroddiad gan Gadeirydd Bwrdd Llywodraethol y Gwasanaeth Glanweithdra Cig
(ASB 06/07/05)

68. Croesawodd y Cadeirydd Brif Weithredwr y Gwasanaeth Glanweithdra Cig (GGC) i'r llwyfan ar gyfer yr eitem hon gan groesawu Cadeirydd Bwrdd y GGC (Chrissie Dunn) i gyflwyno ei hadroddiad.

69. Hysbysodd Cadeirydd Bwrdd y GGC Aelodau'r Bwrdd mai dyma'r trydydd Adroddiad a gyflwynwyd i Fwrdd yr ASB, fel rhan o'r trefniadau atebolrwydd Bwrdd y GGC i Fwrdd yr ASB. Roedd yr Adroddiad yn nodi gwaith Bwrdd y GGC rhwng Rhagfyr 2005 a Mehefin 2006.

70. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd gan Gadeirydd Bwrdd y GGC yr ystyriwyd perfformiad y GGC yn erbyn ei dargedau ac amcanion uchel ar gyfer 2005/06 yng nghyfarfod Bwrdd y GGC ym mis Mai. Asesiad Bwrdd y GGC oedd bod y GGC wedi cwrdd yn llawn â phedwar o'i bum targed, ac wedi cwrdd yn rhannol â'r targed arall.

71. Diweddarwyd Aelodau'r Bwrdd gan Gadeirydd Bwrdd y GGC (GGC) ar Gynllun Busnes a Thargedau Corfforaethol y GGC ar gyfer 2006/07. Roedd Bwrdd y GGC wedi cytuno y dylai'r GGC gymryd yr awennau wrth argymell ei dargedau corfforaethol ei hunan ar gyfer 2006/07. Yn dilyn hynny, argymhellodd y GGC fframwaith rheoli perfformiad yn seiliedig ar y cerdyn sgorio cytbwys, gan ymgynghori'n anffurfiol ar hyn. Yn dilyn ymgynghoriad, cymeradwyodd Bwrdd y GGC chwech amcan allweddol i'r GGC ar gyfer 2006/07. Roedd hyn yn cynnwys diwygio'r weledigaeth a chynnwys cyfeiriad at ddefnyddwyr ym mhwrpas y GGC i danlinellu bod diogelu'r defnyddwyr yn galon i waith y GGC. Byddent yn mesur cynnydd ar gyrraedd yr amcanion trwy ddull Cerdyn Sgorio Cytbwys a fyddai'n cynnig gwell ffocws a thryloywder. Byddai'r cynnydd yn erbyn yr amcanion yn ymddangos yn chwarterol ar wefan yr ASB.

72. Lluniwyd Cynllun Strategol y GGC ar gyfer 2004/05 -2008/09 gan y GGC yn 2003. Oddi ar hynny, cafwyd newidiadau sylfaenol i'r amgylchedd strategol yr oedd y GGC yn gweithio ynddo, yn benodol newidiadau i orchwylion a chyfrifoldebau'r GGC a Gweithredwyr Busnesau Bwyd a ddaeth i mewn gyda rheolau newydd Glanweithdra Bwyd y DU a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2006. Byddai'r GGC a Bwrdd y GGC yn llunio cynllun strategol newydd ar gyfer 2007-2010 ar y cyd mewn ymgynghoriad gyda chyfranogwyr. Byddai oes Cynllun Strategol y GGC hyd at 2010, er mwyn ei gysoni ag

amserlen Cynllun Strategol yr ASB.

73. Byddai Cynllun Strategol newydd y GGC yn adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gan Fwrdd y GGC yn 2005, ac yn cael ei integreiddio i raglen cyfarfodydd Bwrdd y GGC yn ystod 2006/2007. Byddai hyn yn cynnwys cyfeiriad at ail gyfarfod cyfranogwyr Bwrdd y GGC, a oedd i'w cynnal yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf 2006. Byddent yn rhannu cynnydd gyda Bwrdd yr ASB ym mis Rhagfyr 2006. Yna y cyhoeddir y Cynllun Strategol newydd.

74. Roedd yr heriau oedd yn wynebu'r GGC dros y chwe mis nesaf yn cynnwys cymeradwyo ffatrïoedd cig (yn ofynnol o dan y rheolau glanweithdra bwyd newydd) a'r argymhelliad i ddod mewn â thaliadau am reoli gwaredu Defnyddiau Perygl Penodedig.

75. Rhododd Valerie Howarth, sydd yn aelod Bwrdd y GGC, ei sylwadau ar y newidiadau diwylliannol oedd wedi digwydd yn y GGC, yn enwedig wrth symud o fod yn wasanaeth oedd yn cefnogi'r diwydiant i wasanaeth lle yr oedd y pwyslais ar i'r diwydiant gymryd y cyfrifoldeb. Cytunodd Prif Weithredwr y GGC bod rhywfaint o wella wedi digwydd, ond pwysleisiodd bod angen gwaith pellach sylweddol ar y testun hwn.

76. Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- A oedd proses y GGC am arolygu ei Gynllun Strategol yn cynnwys Gogledd Iwerddon?

- Pryd fyddai canlyniadau arolwg allanol trefniadau Pwyllgor Archwiliad yr ASB a'r GGC ar gael?

- Gan yr oedd y GGC yn rhan o'r ASB, roedd yn bwysig sicrhau bod y ddau Gynllun Strategol ar wahân ar gyfer y GGC a'r ASB yn cyd-weithio. Hefyd, byddai rhaid i Fwrdd yr ASB gymeradwyo Cynllun Strategol y GGC.

- Dylid rhoi mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad ar reoli perfformiad, gan gynnwys manylion o berfformiad yn erbyn targedau a gwaith yn ymwneud â'r gofrestr peryglon strategol.

77. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai canlyniadau arolwg Pwyllgor Archwiliad yr ASB a'r GGC ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cynnig dolennau defnyddiol rhwng Pwyllgorau Archwiliad a Pheryglon yr ASB a'r GGC, i fynd i'r afael â phryderon Aelodau Bwrdd y GGC parthed perchnogaeth peryglon.

78. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'n ddefnyddiol i arolygu sut yr oedd y ddau Gynllun Strategol ar gyfer y GGC a'r ASB yn gweddu gyda'i

gilydd. Y cynllun oedd i Gynllun Strategol yr ASB gael ei ystyried gan y Bwrdd yn yr hydref, a Chynllun Strategol y GGC yn y flwyddyn newydd. Roedd angen sicrhau cysylltiadau priodol rhwng y naill a'r llall. Pwysleisiodd Cadeirydd Bwrdd y GGC bwysigrwydd sicrhau proses gywir o ymgynghori â chyfranogwyr, cyrff defnyddwyr a'r diwydiant, gan gadarnhau y byddai Cynllun Strategol terfynol y GGC yn is-set Cynllun Strategol yr ASB a byddai'n cael ei gyflwyno i Fwrdd yr ASB am ei gymeradwyaeth.

79. Cytunwyd y dylai adroddiadau'r GGC i'r Bwrdd yn y dyfodol gynnwys manylion ar reoli perfformiad a chynnydd yn erbyn targedau, yn unol â'r rhai a ddarparwyd ar gyfer yr ASB. Hefyd, dylid cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol mewn dwy ran, gydag ystyriaeth o reoli perfformiad yn y cyfarfod caeëdig, a thestunau polisi yn y sesiwn agored.

3.5 - Adroddiad Dros Dro o'r Grŵp Arolygu Annibynnol ar newid i'r rheol Dros Tri-deg Mis
(Papur ASB 06/07/06)

80. Croesawodd y Cadeirydd Alison Gleadle (Pennaeth Adran YST) a David Carruthers (Adran YST) i'r llwyfan i gyflwyno'r papur hwn ac i ateb cwestiynau.

81. Atgoffodd Alison Gleadle Aelodau'r Bwrdd bod profion BSE ar gyfer gwartheg dros tri-deg mis oed (DTM) a laddwyd am fwyd wedi cymryd lle gwaharddiad ar dderbyn pob anifail DTM i gyflenwad bwyd y DU o 7 Tachwedd 2005. Wrth wneud y penderfyniad hwn, roedd Gweinidogion wedi cytuno y dylai'r ASB gyflwyno adroddiad iddynt ar 6 mis cyntaf gweithrediad profion BSE yn dilyn y newid.

82. Fel ag a gytunwyd gan y Bwrdd, sefydlwyd y Grŵp Arolygu Gweithrediad (GAG) i oruchwilio gweithrediad y system profion BSE am 12 mis cyntaf ei weithrediad a chyflwyno adroddiad ar hyn. Y papur hwn oedd adroddiad dros dro'r GAG. Comisiynodd yr ASB gwmni DNV Consulting i lunio arolwg annibynnol o chwe mis cyntaf y gweithredu, ac atodwyd ei adroddiad fel Atodiad C i'r papur. Roedd y GAG wedi archwilio'r data perfformiad, gan sicrhau cymhwysiad unrhyw wersi a ddysgwyd, ac wedi ystyried arolwg trylwyr DNV, oedd yn cynnwys archwiliad o sampl eang gynrychiadol o ladd-dai a gymeradwy-wyd i ladd gwartheg. Monitrwyd gweithrediad y system profion yn agos gan staff milfeddygol y GGC (neu DARD yng Ngogledd Iwerddon). Roedd GAG wedi monitro'n drylwyr data ac adroddiadau o'r gweithgaredd monitro ac archwilio hwn.

83. Daeth y GAG i'r casgliad bod y gyfundrefn profion BSE yn cael ei gweithredu yn y DU mewn ffordd digonol gadarn ac roedd yn bositif yn gyffredinol am y ffordd y sefydlwyd y gyfundrefn. Testun pryder oedd cyflwyniad parhaol i ladd-dai gan rai cynhyrchwyr o wartheg a anwyd yn y DU cyn 1 Awst 1996, nad oedd yn ddilys am fynd i mewn i'r gadwyn fwyd. Daeth

y GAG i'r casgliad bod yr oruchwyliaeth bresennol wedi dangos ei heffeithiolrwydd wrth atal anifeiliaid o'r math rhag mynd i mewn i'r gadwyn fwyd hyd yn hyn, ond byddai angen cynnal gwyliadwraeth barhaol a phwysau ar y diwydiant.

84. Gwnaeth Aelodau'r Bwrdd y sylwadau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Dangosodd yr adroddiad dros dro ganlyniadau a chynnydd dymunol parthed gweithredu'r cynllun profion BSE.

- Nodwyd na chafwyd unrhyw ganlyniad positif hyd yn hyn. A allai hyn fod oherwydd natur or-geidwadol yr asesiad peryglon?

- Dylid gweithredu'n gadarn yn erbyn y ffermwyr hynny oedd yn cyflwyno anifeiliaid a anwyd cyn 1 Awst 1996 e.e. eu herlyn.

- Beth fyddai'n digwydd unwaith y diddymwyd y GAG ar ddiwedd ei gyfnod o 12 mis? A fyddai unrhyw drefniadau monitro i gymryd ei le?

85. Cadarnhaodd Alison Gleadle nad erlyniwyd unrhyw ffermwyr yn cyflwyno anifeiliaid an-nilys i'r cynllun hyd yn hyn. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai gweithredu o'r math yn fwyaf effeithiol yn erbyn tramgwyddwyr mynych. Parthed yr asesiad peyrgl, cadarnhaodd Alison Gleadle i'r GAG ddisgwyl bob amser y byddai rhai canlyniadau positif, ond bod effaith newidiadau i'r rheolau ar ladd argyfyngus yn debygol o fod yn fuddiol wrth leihau'r perygl o BSE mewn gwartheg DTM yn mynd i mewn i'r cyflenwad bwyd. Ynglŷn â'r amser wedi GAG, byddai'r Bwrdd yn cael ei wahodd i ystyried unrhyw argymhellion am drefniadau dilyn-i-fyny yn y cyfarfod pan gyflwynir adroddiad terfynol y GAG ar 12 mis cyntaf gweithrediad profion BSE.

86. Nododd y Bwrdd bod y system bresennol wedi gweithredu'n dda hyd yn hyn a chytunodd y dylai'r ASB gynghori Gweinidogion bod gweithrediad y system brofi yn lladd-dai'r DU wedi datblygu'n foddhaol.

Gweithredu: Alison Gleadle

Eitem 4 - Unrhyw Fater Arall

Papurau Gwybodaeth a Phapurau Rheolau Sefydlog

87. Tynnodd y Cadeirydd sylw Aelodau'r Bwrdd at y 4 Papur Gwybodaeth a'r 6 phapur Rheolau Sefydlog a ddarparwyd yn y papurau ar gyfer y cyfarfod Bwrdd agored hwn.

88. Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd bod y papurau hyn yn cynnwys papur gwybodaeth ar ddenu cyfranogiad defnyddwyr[14]. Trafodwyd y testun hwnnw ddiwethaf gan Aelodau'r Bwrdd ym Mis Medi 2005. Roedd y papur gwybodaeth hwn yn rhan gyntaf y diweddariad. Byddai papur mwy cynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

89. Gofynnodd un aelod o'r Bwrdd i bedwerydd grŵp o ddefnyddwyr gael ei ychwanegu i Atodiad A, tudalen 7 o'r papur fel a ganlyn:

- Y defnyddwyr hynny sydd ddim yn gwybod y dylent fwyta'n iach ond sydd yn gwneud hynny beth bynnag.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

90. Cynhelir y cyfarfod agored rhestredig nesaf yn Llundain ar 21 Medi 2006.

[14] INFO/06/07/01